# Gweithdrefn Moeseg Ymchwil: Effaith andwyol bosib ar yr amgylchedd

## Cyflwyniad

Yn unol â Pholisi Moeseg Ymchwil y Brifysgol, mae'n rhaid i bwyllgor moeseg ymchwil perthnasol y Brifysgol gynnal adolygiad a chymeradwyo unrhyw ymchwil a all gael effaith amgylcheddol andwyol. Sylwer, mae'r weithdrefn hon yn ymwneud yn uniongyrchol â methodolegau a gweithgareddau ymchwil sy'n ymwneud â'r amgylchedd, yn hytrach na'r camau y gall unigolion eu cymryd fel rhan o'u bywydau gwaith dydd i ddydd. Gellir dod o hyd i ymrwymiadau a pholisïau'r Brifysgol, o ran yr amgylchedd a chynaliadwyedd, ar dudalennau Cynaliadwyedd y Brifysgol.

Mae'r weithdrefn hon yn amlinellu'r hyn a ellir ei ystyried yn effaith amgylcheddol sydd angen cymeradwyaeth gan bwyllgor moeseg ymchwil.

## Cwmpas

Mae Polisi Moeseg Ymchwil y Brifysgol a'r weithdrefn hon yr un mor berthnasol i brosiectau a wneir gan staff neu fyfyrwyr y Brifysgol, mewn unrhyw leoliad, gan gynnwys gwaith ar y cyd â sefydliadau trydydd parti.

## Diffiniad

Gellir diffinio ymchwil sy'n cynnwys effaith amgylcheddol andwyol fel newid neu weithgaredd sy'n cael effaith andwyol ar aer, tir, dŵr neu aelodau ecosystem. Ystyrir effeithiau tymor byr a thymor hir yn effaith amgylcheddol.

Nid yw'r rhestr isod yn gynhwysfawr, ond mae'n cynnig trosolwg o'r mathau o weithgareddau ymchwil a ellir eu hystyried fel rhai sy'n cael effaith amgylcheddol sydd angen cymeradwyaeth pwyllgor moeseg ymchwil. Os nad yw ymchwilydd yn sicr a oes angen cymeradwyaeth pwyllgor moeseg ymchwil ar gyfer yr ymchwil arfaethedig, dylid ceisio cyngor gan y Swyddfa Ymchwil rescadmin@glyndwr.ac.uk.

- Rhyddhau organebau neu gemegion i'r amgylchedd
- Camau sy'n effeithio ar y ffordd mae ecosystemau'n gweithio
- Tynnu adnoddau o amgylchedd yn llwyr, neu eu difrodi'n llwyr
- Gadael deunyddiau niweidiol mewn amgylchedd am byth
- Camau gweithredu a all effeithio ar ddyfodol ymchwil amgylcheddol, gan gynnwys newid system amgylcheddol am byth, neu ei samplu'n ormodol

## Proses Adolygu

Mae'n rhaid cyflwyno'r holl geisiadau ar gyfer cymeradwyaeth moeseg ymchwil drwy System Moeseg Ymchwil Wrecsam. Mae'n rhaid i ymchwilwyr sy'n gwneud ymchwil a all gael effaith andwyol ar yr amgylchedd, gydymffurfio ag unrhyw ofynion deddfwriaethol a cheisio'r caniatâd, y trwyddedau a'r gymeradwyaeth briodol gan y cyrff priodol, e.e. Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), cyn gwneud cais am gymeradwyaeth moeseg ymchwil y Brifysgol.

## Egwyddorion

- Dylai ymchwilwyr ystyried y gwaith o ddiogelu a chadw'r adnoddau naturiol sy'n cael eu harchwilio ar gyfer ymchwilwyr y dyfodol.
- Mae'n rhaid i ymchwilwyr gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth a rheoliadau amgylcheddol perthnasol.

- Mae gan ymchwilwyr ddyletswydd i rannu gwybodaeth am oblygiadau amgylcheddol eu harferion a'u canfyddiadau.
- Mae'n rhaid i ymchwilwyr barchu'r amgylchedd lle maen nhw'n gwneud ymchwil, gan geisio caniatâd priodol, e.e. Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SDdGA), pan fo'n ofynnol.
- Dylai ymchwilwyr sicrhau bod yr asesiadau risg priodol, y rheolyddion priodol, a'r gweithdrefnau gweithredu sylfaenol ar waith wrth wneud ymchwil a all gael effaith andwyol ar yr amgylchedd.

## Manylion Cyswllt

Dylid cyfeirio'r holl ymholiadau sy'n ymwneud â'r weithdrefn hon at y Swyddfa Ymchwil - rescadmin@glyndwr.ac.uk